

## Newyddion diweddaraf Data Cymru – PCYC Mehefin 2023

### Dangosfwrdd Proffil Ardaloedd Lleol – fersiwn beta ar gael

Yn ddiweddar, rydym wedi trefnu bod fersiwn Beta o'n proffil ardaloedd lleol ar gael i'n cydweithwyr mewn awdurdodau lleol trwy rwydweithiau Penaethiaid Polisi, Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd, a Pherfformiad a Data. Mae'r offeryn yn defnyddio data'r Cyfrifiad ar ddaeyryddiaethau ward ac LSOA i roi darlun o ardaloedd lleol, gan gwmpasu'r chwe thema isod:

- Pobl
- Cyflogaeth a sgiliau
- Iechyd a gofal
- Trafnidiaeth
- Tai
- Iaith a hunaniaeth.

Ein bwriad yw cyhoeddi fersiwn derfynol o'r offeryn ar ein gwefan yn gynnar yng Ngorffennaf.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â [Suzanne Draper](#).

### Offeryn Set Ddata Hunan-asesu Perfformiad (SAPD) i Gyngorau Cymru

Rydym ni wedi datblygu offeryn i gefnogi cyngorau Cymru gyda'u data Hunan-asesu Perfformiad (SAPD). Cafodd yr offeryn ei ddatblygu mewn ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor yng Nghymru adolygu'n rheolaidd i ba raddau maen nhw'n bodloni eu 'gofynion perfformiad'.

Mae'r offeryn yma'n adnodd i awdurdodau lleol allu manteisio ar set safonedig o ddata perfformiad, gan adael iddyn nhw ddeall sut maen nhw'n perfformio yn erbyn y gofynion a sut mae hyn yn cymharu ag eraill.

Cymerwch gip ar: <https://www.data.cymru/data/data-perfformiad-hunan-asesu>

Am ragor o wybodaeth am y set ddata hon, cysylltwch â [Suzanne Draper](#).

### Ydych chi'n awyddus i ddeall mwy am yr argyfwng costau byw, ei sbardunau a'i effeithiau?

Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi ein dangosfwrdd 'Deall costau byw'. Nod y dangosfwrdd yw eich helpu i ddeall mwy am gostau byw ar lefel genedlaethol a, lle bo'n bosibl, ar lefel leol.

Mae'r wybodaeth yn ymrannu'n dair thema, sef:

- Prisiau – sy'n canolbwyntio ar gost gwahanol nwyddau a gwasanaethau a sut maen nhw'n newid dros amser;
- Cyflogaeth – sy'n canolbwyntio ar sut mae lefelau tâl a chyflogaeth yn newid; ac
- Effeithiau – sy'n canolbwyntio ar rai o effeithiau'r argyfwng costau byw.

O'r dudalen hafan, sy'n cynnig cyflwyniad i bob thema, gallwch chi glicio ar 'Archwilio'r data' i weld rhagor o ddata mewn perthynas â phob thema.

I fynd at y dangosfwrdd, dilynwch y ddolen isod:

<https://www.data.cymru/dashboards/deall-costau-byw>

Byddem ni'n ddiolchgar am eich adborth ar y dangosfwrdd. Cysylltwch â [Suzanne Draper](#).

## Adroddiad Blaenoriaethau Gofal Cymdeithasol

Cawsom ein comisiynu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i nodi a deall y blaenoriaethau tymor canolig ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Cynhaliom ni arolwg a chyfres o grwpiau ffocws gydag uwch aelodau a swyddogion cyngor yn ogystal â sefydliadau eraill sy'n cyflenwi, neu'n cefnogi, gofal cymdeithasol yng Nghymru. Darganfuom ni fod problemau o ran gweithlu, cyllid, ac anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio yn bryderon allweddol a gafodd eu codi gan gyfranogwyr.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein [gwefan](#).

## Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol


Ar ran y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, cawsom ni ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal arolwg o'r holl ymgeiswyr a oedd yn sefyll yn etholiadau llywodraeth leol ym Mai 2022.


Cafodd yr arolwg ei anelu at Gynghorwyr ac ymgeiswyr Sir a Thref a rhai Cymuned. Cafodd set benodedig o gwestiynau eu gofyn iddyn nhw am eu nodweddion cymdeithasol-demograffaid. Dyma'r pedwerydd tro i ni gynnal yr arolwg hwn; caiff ei ailadrodd yn ystod pob etholiad arferol i olrhain newidiadau ymhlith nodweddion cynghorwyr ac ymgeiswyr dros amser.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein [gwefan](#).

## Rhaglen gweminarau 'Hysbysu ac Ysbrydoli'

Rydym ni'n cynnal gweminarau rheolaidd fel rhan o'n rhaglen gweminarau 'hysbysu ac ysbrydoli' a gafodd ei lansio'n ddiweddar. Dwy brif thema sydd gan y rhaglen:

Mae ein gweminarau  **Data/Hysbysu** yn cynnig cyflwyniad lefel uchel i amrywiol bynciau mewn perthynas â data, ystadegau ac ymchwil.

Mae ein gweminarau  **Data/Ysbrydoli** yn arddangos gwaith arloesol ac ysbrydoledig rydym ni a/neu gyrff eraill yn ei wneud gyda data.

I gadw lle, ewch i [Tocyn Cymru](#).

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan: <https://www.data.cymru/cym/webinars>

I fod ymhlith y cyntaf i glywed am sesiynau'r dyfodol, [cofrestrwch](#) am ein rhestr bostio 'Hysbysu ac Ysbrydoli'.

Rydym bob amser yn chwilio am gynnwys ar gyfer gweminarau. Os ydych chi wedi gweld, wedi gwneud, neu wrthi'n gwneud rhywbeth diddorol, arloesol ac ysbrydoledig gyda data, byddem ni wrth ein bodd i glywed amdano – llwyddiannus neu fel arall.

Yn yr un modd, byddem ni wrth ein bodd yn clywed eich awgrymiadau am bynciau data, ystadegau neu ymchwil hoffech chi ddysgu mwy amdany'n nhw yn y dyfodol.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â [Suzanne Draper](#).

### **Adeiladu capasiti - rhaglen hyfforddiant sydd ar y gweill...**

Ydych chi'n awyddus i ddysgu mwy am gasglu a defnyddio data? Ydych chi'n gweithio gyda data ac eisiau cael mwy o werth ohono? Ydych chi'n meddwl am ehangu'ch sgiliau?

Rydym ni wedi datblygu cyfres o gyrsiau hyfforddiant a fydd yn eich **cyflwyno** i:

- Ystadegau cryno
- Cyflwyno data
- Dylunio a dadansoddi arolygon
- Chynllunio a chyflwyno grwpiau ffocws.

Os hoffech chi drafod eich gofynion chi, yna cysylltwch â [Sam Sullivan](#).

### **Cyrsiau hyfforddiant NEWYDD**

Rydym ni wedi lansio dau gwrs hyfforddiant newydd yn ddiweddar, sef:

#### **Data101: cyflwyniad i ddeall a defnyddio data**

Mae'r cwrs hwn yn cynnig arweiniad ymarferol i helpu i feithrin sgiliau a hyder wrth ddeall a defnyddio data. Erbyn diwedd y cwrs, byddwch chi'n deall:

- beth yw data a sut i ddod o hyd iddo
- y cwestiynau mae angen i chi eu gofyn i wneud yn siŵr eich bod yn deall data
- rhai technegau sylfaenol ar gyfer defnyddio data.

#### **Deall a defnyddio data perfformiad**

Mae'r cwrs hwn yn cynnig arweiniad ymarferol i helpu i feithrin sgiliau a hyder wrth ddeall, herio a defnyddio data. Erbyn diwedd y cwrs, byddwch chi'n deall:

- beth yw data perfformiad a sut i ddod o hyd iddo
- beth mae angen i chi ei ystyried wrth weithio gyda data perfformiad
- sut i ddefnyddio data perfformiad.

Mae'n cael ei argymhell, ond nid yw'n hanfodol, eich bod chi'n mynychu ein cwrs hyfforddiant 'Data 101: cyflwyniad i ddeall a defnyddio data' cyn y cwrs hwn.

Mae dwy fersiwn o'r ddau gwrs: y naill sy'n cael ei anelu at Gynghorwyr a'r llall at bob aelod staff. Rydym ni wedi sicrhau cyllid i ddarparu'r holl sesiynau i Gynghorwyr yn rhad ac am ddim. Mae pob un yn cymryd tua awr a hanner ac yn gallu cael ei gyflwyno ar-lein neu wyneb yn wyneb ar amser / dyddiad sy'n addas i chi. Fel arfer mae niferoedd yn cael eu cyfyngu i 20 o bobl.

Am fwy o wybodaeth, gweler ein [gwefan](#).

## **Cymunedau Ymarfer**

Wrth i ni symud i mewn i'r flwyddyn galendr newydd, byddwn yn ymgysylltu â'n haelodau cymuned i ddarganfod beth hofften nhw ei ennill o'u haelodaeth a sut allen ni / y gymuned helpu gyda hyn. Byddwn ni'n edrych yn ogystal ar y posibilrwydd o gwrdd yn rheolaidd er mwyn caniatáu i gydweithwyr rannu eu meddyliau, syniadau neu allbynnau.

Hefyd rydym ni'n gweithio gyda chydweithwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus i sefydlu Cymunedau Ymarfer pellach. Er enghraifft, rydym ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i archwilio Cymuned Ymarfer ar gyfer cydweithwyr sydd â diddordeb mewn data geo-ofodol.

Os credwch y gallech chi elwa drwy fod yn rhan o'r cymunedau newydd cyffrous hyn, gweler ein [tudalen Cymunedau Ymarfer](#) am fanylion sut mae cymryd rhan.

Os hoffech chi gael unrhyw wybodaeth bellach neu os oes gennych chi awgrym am gymuned ymarfer, cysylltwch â [Róisín Roberts](#).